

**PRIFYSGOL ABERTAWE**

**Adroddiad monitro cryno ar y Cynllun Iaith Gymraeg ar gyfer**

**Comisiynydd y Gymraeg**

**Blwyddyn Academaidd Medi 2015-Awst 2016**

**Yn unol â Deddf yr Iaith Gymraeg 1993**

**CYNNWYS**

	<b>Tudalen</b>
<b>1. Cyflwyniad a phrif ddatblygiadau'r flwyddyn</b>	<b>2</b>
<b>2. Strwythurau Monitro</b>	<b>3</b>
<b>3. Dangosyddion Perfformiad</b>	<b>4-14</b>

## CYFLWYNIAD

Cymeradwywyd Cynllun Iaith Gymraeg cyfredol Prifysgol Abertawe gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg ar 21 Tachwedd 2011. Mae copi o'r [Cynllun Iaith Gymraeg](#) (CIG) ar gael ar wefan y Brifysgol yn Gymraeg ac yn Saesneg, ac mae taflen *Yr Iaith Gymraeg ym Mhrifysgol Abertawe /The Welsh Language at Swansea University* yn crynhoi'r prif egwyddorion.

Mae'r adroddiad hwn, a baratowyd ar gyfer Comisiynydd y Gymraeg, yn amlinellu'r cynnydd a wnaed tuag at weithredu'r Cynllun Iaith Gymraeg yn llawn yn ystod y flwyddyn academaidd 2015-16

### **Crynodeb o'r meysydd allweddol o gynnydd ac uchafbwyntiau 2015-16:**

- Agorwyd canolfan 'Tŷ'r Gwrhyd' ym Mhontardawe, gyda'r Brifysgol yn un o'r prif bartneriaid trwy Academi Hywel Teifi.
- Cychwynnodd nifer o brosiectau ymchwil Cymraeg, gan gynnwys CorCenCC a'r Esboniadur.
- Bu datblygiadau pellach yn narpariaeth cyfrwng Cymraeg y Brifysgol, gan gynnwys Biocemeg, Geneteg a Pheirianneg.
- Datblygwyd cyrsiau Cymraeg wedi'u teilwra ar gyfer staff a myfyrwyr mewn meysydd penodol megis Gwaith Cymdeithasol.
- Noddwyd GwyddonLe Eisteddfod yr Urdd a Thafwyl Caerdydd unwaith yn rhagor.
- Sefydlwyd fforwm myfyrwyr cyfrwng Cymraeg ar gyfer Cangen Abertawe o'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol.
- Cychwynnwyd cynllun mentora mewnol ar gyfer aelodau staff sydd eisiau gwella eu Cymraeg.
- Parhaodd y cyrsiau cyfarch ar gyfer staff (ariannwyd gan Swyddfa'r Swyddogion Polisi'r Gymraeg) ac maent yn parhau i ddatblygu mewn poblogrwydd. Cynhaliwyd dau yn ystod y flwyddyn.
- Mae modd cyrchu'r tudalennau gwe newydd a grëwyd o dan y teitl 'Cymraeg ar y Campws' bellach o hafan y wefan, sy'n ychwanegol i'r opsiwn i ddewis iaith y tudalennau.
- Dechreuodd y Swyddogion Polisi Iaith gynnig sesiynau ymwybyddiaeth am Safonau'r Gymraeg er mwyn cyfathrebu'r newidiadau sydd ar y gweill i gymaint o staff â phosibl.

## MONITRO'R CYNLLUN IAITH GYMRAEG

Mae monitro cydymffurfiaeth â'r Cynllun Iaith Gymraeg (CIG) ar draws y sefydliad, wedi parhau yn flaenoriaeth.

### Strwythurau monitro ffurfiol

Yn ystod y flwyddyn, gwnaed y penderfyniad bod angen strwythur newydd ar y Grŵp Gwasanaethau'r Gymraeg, a oedd wedi disodli Grŵp Monitro'r Cynllun Iaith Gymraeg, er mwyn mynd i'r afael â'r Safonau Iaith arfaethedig. Crëwyd felly Grŵp Llywio Safonau'r Gymraeg, gydag aelodaeth fwy cyfyng a mwy penodol. Cadeirir y Grŵp gan yr Athro Iwan Davies, Uwch-ddirprwy Is-ganghellor gyda chyfrifoldeb dros y Gymraeg, ac mae'n cynnwys cynrychiolaeth o Fwrdd Reoli'r Brifysgol (Colegau), cynrychiolaeth o'r Tîm Gwasanaethau Proffesiynol, cynrychiolaeth o Academi Hywel Teifi, a'r Swyddogion Polisi'r Gymraeg. Bydd y grŵp yn goruchwyllo'r broses o ymgynghori a gweithredu Safonau'r Gymraeg. Unwaith bydd y Safonau yn hollol weithredol, ail-ystyri'r y strwythur er mwyn gweld pa strwythur monitro fyddai orau o hynny ymlaen.

Mae cyfarfodydd Grŵp Llywio'r Safonau yn cael eu cynnal yn y Gymraeg gyda chymorth cyfieithu ar y pryd gan un o gyfieithwyr y Brifysgol.

Mae'r gwaith parhaol o gefnogi a gweithredu'r Cynllun Iaith yn cael ei wneud gan y **Swyddogion Polisi a Hyrwyddo'r Gymraeg**, swydd lawn-amser, a rhennir gan ddau aelod o staff rhan amser - Nia Besley a Emily Hammett.

Cyfarwyddwr Academi Hywel Teifi sy'n arwain y gwaith o ddatblygu'r gefnogaeth a 'r ddarpariaeth academaidd cyfrwng Cymraeg. Rôl **Pwyllgor Strategaeth y Gymraeg** yw datblygu a gweithredu strategaeth ar gyfer defnydd y Gymraeg a datblygu addysg cyfrwng Cymraeg. Mae'r pwyllgor yn cwrdd unwaith y tymor ac mae'n adrodd i'r Senedd. Mae'r Swyddogion Polisi Iaith yn mynychu'r cyfarfodydd er mwyn adrodd i'r aelodau, gan gynnwys ar faterion yn ymwneud â Safonau'r Gymraeg, yn enwedig y rhai sy'n berthnasol i staff Academaidd.

Lansiwyd rhwydwaith newydd o **Gydlynwyr Safonau'r Gymraeg** yn ystod y flwyddyn, gyda chynrychiolaeth o bob coleg ac adran weinyddol. Bydd y cydlynwyr yn cynorthwyo'r Swyddogion Polisi wrth baratoi ar gyfer Safonau'r Gymraeg a sicrhau bod y negeseuon yn cael eu lledaenu mor eang â phosibl.

## **DANGOSYDDION PERFFORMIAD**

### ***Dangosydd Perfformiad 1:***

***Nifer o staff gweinyddol sy'n siarad Cymraeg (pob lefel) 478 (407 yn 2014-15)***

***Cyfanswm staff gweinyddol = 1216 (1121 yn 2014-15)***

***Yn gallu siarad ychydig o Gymraeg - 357 (280 yn 2014-15)***

***Yn gallu siarad Cymraeg yn eithaf da - 53 (52 yn 2014-15)***

***Yn Rhugl - 77 (75 yn 2014-15)***

***CYFANSWM= 478***

***Canran o staff gweinyddol sy'n gallu siarad Cymraeg (pob lefel) 39.3% (36.3% yn 2014-15)***

Cofnodir gallu ieithyddol staff newydd fel arfer wrth iddynt ymuno â'r Brifysgol, drwy ffurflen fanwl y gofynnir i staff newydd ei chwblhau. Mae'r ffurflen yn cynnwys cwestiynau am eu gallu i ddarllen, ysgrifennu, siarad a deall y Gymraeg, yn ogystal â gallu staff academaidd i ddysgu trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae staff yn gallu diweddarur'r wybodaeth ar unrhyw adeg, er enghraifft os ydynt yn dysgu Cymraeg.

Gwelir o'r ystadegau uchod bod rhywfaint o gynnydd wedi bod yn y nifer y staff gweinyddol sy'n siarad Cymraeg, gyda'r cynnydd fwyaf yn y categori o staff sy'n siarad 'ychydig' o Gymraeg. Gallai hyn fod oherwydd newidiadau staff, ond hefyd o bosibl effaith y Cwrs Cyfarch, sydd wedi annog pobl mewn rhai achlysuron i barhau gyda'u dysgu, neu wedi atgyfnerthu'r ychydig o Gymraeg oedd ganddynt eisoes o'u diwrnodau ysgol, er enghraifft, fyddai'n newid sut maent yn ystyried eu sgiliau Cymraeg.

Y gobaith yw sicrhau bod cynifer o staff di-gymraeg â phosibl yn mynychu'r Cwrs Cyfarch. Mae'r Swyddog Polisi yn mynychu dechrau pob cwrs er mwyn eu hysbysu o'r cyfleoedd dysgu ychwanegol sydd ar gael ac esbonio'r cyd-destun cyfreithiol ehangach.

**Dangosydd Perfformiad 2:**

***Nifer y swyddi gweinyddol a hysbysebwyd fel 'Cymraeg yn hanfodol' – 10***

***Nifer o'r swyddi cyfan a lenwyd gan siaradwyr Cymraeg – 42***

***Canran o'r swyddi cyfan a lenwyd gan siaradwyr Cymraeg – 4.2%***

***Mae'r mwyafrif helaeth o swyddi eraill yn cael eu hysbysebu fel 'Cymraeg yn ddymunol' heblaw am achosion prin ble nad yw sgiliau Cymraeg yn cael eu hystyried yn berthnasol***

Mae trafodaethau yn parhau gyda'r adran Adnoddau Dynol er mwyn cryfhau'r broses o asesu'r sgiliau Cymraeg sydd eu hangen wrth recriwtio, ac er mwyn sicrhau bod disgrifiadau swyddi yn cynnwys gwybodaeth fanwl am yr union sgiliau sydd eu hangen o ran y Gymraeg, y tu hwnt i 'hanfodol' neu 'dymunol', ac i gyd-fynd gyda'r fframwaith ALTE.

Mae'r Swyddogion Polisi yn monitro rhestr o swyddi sydd ar fin cael eu hysbysebu er mwyn gwirio, a herio lle bo'n briodol, y gofynion am sgiliau Cymraeg.

**Dangosydd Perfformiad 3 a Dangosydd Perfformiad 6****Nifer o staff gweinyddol a fynychodd cyrsiau Cymraeg yn ystod y flwyddyn: 68****Nifer o staff academiaidd a fynychodd cyrsiau Cymraeg yn ystod y flwyddyn, a ariannwyd yn llawn gan y Brifysgol – 17****Mynychodd 6 o staff academiaidd y Brifysgol hefyd gyrsiau Cymraeg yn y gweithle ar gyfer staff y Brifysgol, ac wedi talu ffi'n bersonol.**

Mae'r cyrsiau yn cynnwys cyrsiau a drefnir gan ganolfan 'Dysgu Cymraeg - Bae Abertawe' (Cymraeg i Oedolion gynt) yn y Brifysgol, yn ogystal â chyrsiau wedi'u teilwra, megis y Cwrs Cyfarch (2 ddiwrnod) ar gyfer staff sy'n ddechreuwyr pur, neu'r cwrs 'Rhoi sglein ar eich Cymraeg' (20 awr dros 10 sesiwn) ar gyfer staff rhugl sydd eisiau gwell eu defnydd o'r Gymraeg yn y gweithle.

**1. Cyrsiau Cymraeg yn y Gweithle (yn benodol i staff)**

Lefel	Ymrestriadau	Nifer wedi'u cefnogi gan y Brifysgol (ffioedd)	Gweinyddol	Academiaidd
Cwrs Cyfarch**	18	18	15	3
Mynediad	51	31	40	11
Sylfaen	6	6	4	2
Hyfedredd** (Rhoi sglein)	10	10	5	5

\*\*Ariennir gan swyddfa Swyddogion Polisi Iaith y Brifysgol

**2. Staff ar Gyrsiau CiO eraill ar y Campws wedi'u cefnogi gan y Brifysgol**

Lefel	Nifer wedi'u cefnogi gan y Brifysgol (ffioedd)	Gweinyddol	Academiaidd
Mynediad	3	1	2
Sylfaen	0	0	0
Canolradd	0	0	0

### 3. Staff ar Gyrsiau CiO eraill ddim ar y Campws wedi'u cefnogi gan y Brifysgol

Lefel	Ymrestriadau	Nifer wedi'u cefnogi gan y Brifysgol (ffioedd)
Mynediad	2	2
Sylfaen	0	0
Canolradd	0	0
Uwch	1	1

**Dangosydd Perfformiad 4**

**Nifer o staff academaidd sy'n gallu siarad Cymraeg (pob lefel) 411 (382 yn 2014-15)**

**Yn gallu siarad ychydig o Gymraeg -213 (191 yn 2014-15)**

**Yn gallu siarad yn eithaf da - 46 (43 yn 2014-15)**

**Yn rhugl – 152 (148 yn 2014-15)**

**CYFANSWM= 411**

**Canran o staff academaidd sy'n gallu siarad Cymraeg (pob lefel) 31% (30% in 2014-15)**

**(Cyfanswm staff academaidd = 1343)**

Ceir rhywfaint o gynnydd yn y canran o siaradwyr Cymraeg. Er bod y Cwrs Cyfarch yn denu llai o academyddion, mae'r Cwrs 'Rhoi Sglein ar eich Cymraeg' sy'n cael ei gynnal dros 10 wythnos ar gyfer staff sy'n rhugl ond sydd angen mwy o hyder yn eu Cymraeg wedi denu rhai academyddion dros y blynyddoedd diwethaf, ac fe adlewyrchir eu hyder newydd yn y categori 'rhugl' o bosibl.



**Dangosydd Perfformiad 5**

**Nifer o staff academaidd sydd yn dysgu trwy gyfrwng y Gymraeg 89 (84 yn 2014-15)**

**Nifer o staff academaidd sydd â'r gallu i ddysgu trwy gyfrwng y Gymraeg 127 (141 yn 2014-15)**

Mae'r nifer o staff academaidd sy'n dysgu trwy'r Gymraeg, mewn unrhyw ffurf, wedi cynyddu rhywfaint, ac mae hyn yn adlewyrchu'r ymdrechion i ddatblygu'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg ar draws y Brifysgol.

Tra bod y nifer o staff sy'n dweud bod ganddynt y gallu i ddysgu trwy'r Gymraeg wedi gostwng, gallai hyn fod oherwydd yr esboniad a ychwanegwyd at y blwch sy'n casglu'r data ar y system. Cyn esbonio pwrpas y cwestiwn roedd rhai staff gweinyddol yn dweud eu bod yn gallu dysgu trwy'r Gymraeg, gan feddwl bod hyn yn cynnwys cynnig darpariaeth trwy'r Gymraeg ac ati. Mae'n bosibl felly bod y ffigur bellach yn fwy cywir.

### ***Dangosydd Perfformiad 7***

***Nifer a chanran y polisiau a mentrau newydd oedd yn destun asesiad effaith ieithyddol (a Chydraddoldeb)***

***Roedd 2 polisi newydd yn destun Asesiad Effaith Cydraddoldeb, gan gynnwys yr iaith Gymraeg (yn 2015-16)***

### **Polisiau a mentrau newydd**

Mae'n ofynnol i holl bwyllgorau'r Brifysgol i gynnal Asesiad Effaith Cydraddoldeb o bob polisi a menter newydd cyn gofyn iddynt gael eu cymeradwyo gan y pwyllgorau. Mae hwn yn ofyniad a gyflwynwyd gyntaf yn 2012.

Mae'r dogfennau Asesiad Effaith Cydraddoldeb yn cynnwys cyfeiriad at yr iaith Gymraeg i sicrhau bod effaith unrhyw bolisiau a mentrau newydd ar yr iaith yn cael ei hystyried fel rhan o'r Asesiad. Aseswyd dwy strategaeth/polisi/arfer yn ystod 2015-16 gan ddefnyddio'r dogfennau Asesiad Effaith Cydraddoldeb llawn, ac ni adroddwyd bod unrhyw effaith andwyol ar yr iaith Gymraeg. Dyma'r ddau asesiad a gynhaliwyd:

1. Polisi Secondiadau
2. Model Llwyth Gwaith ar gyfer yr adran Seicoleg

***Dangosydd Perfformiad 8***

***Nifer a chanran y cytundebau a gafodd eu monitro, a oedd yn cydymffurfio â gofynion y Cynllun Iaith Gymraeg:***

***Oherwydd natur amrywiol y Brifysgol, y nifer fawr o gytundebau a reolir, a'r ffaith bod nifer o benderfyniadau prynu wedi'u datganoli i adrannau unigol, mae hi'n anodd cynnig data cyflawn yma.***

***Serch hynny, mae gweithdrefnau yn eu lle, trwy'r rhestr cyflenwyr a ffafrir, a thrwy gyfeiriad at y Cynllun Iaith mewn dogfennaeth tendro arferol, i sicrhau bod gofynion iaith y Brifysgol wedi'u cynnwys mewn cytundebau trydydd parti lle bo'n briodol. Mae'r swyddogion sydd â chyfrifoldeb am y cytundebu hefyd yn gyfrifol am sicrhau cydymffurfiaeth â thelerau'r cytundeb.***

## Dangosydd Perfformiad 9

*Derbyniwyd 19 o gwynion yn ymwneud â gweithrediad y Cynllun Iaith Gymraeg yn 2015-16*

Dyddiad	Crynodeb o'r gŵyn	Canlyniad
1/9/15	Deunydd ar-lein uniaith Saesneg yr adran SALT	Trafodwyd gyda'r adran. Mae peth o'r wybodaeth bellach wedi'i gyfieithu. Safonau'r Gymraeg i fwydo unrhyw ddatblygiadau pellach
8/9/15	Diffyg arwyddion Cymraeg ar gangen Banc Santander	Cyfarfod rhwng y Swyddogion Polisi a'r rheolwr. Bu'r rheolwr mewn cysylltiad gyda swyddfa'r Comisiynydd.  Creodd Santander Gynllun Iaith Gymraeg ei hun. Mae'r mwyafrif o arwyddion bellach yn ddwyieithog  <a href="http://www.santander.co.uk/uk/welsh-language-policy#">http://www.santander.co.uk/uk/welsh-language-policy#</a>
10/9/15	Llythyr uniaith Saesneg o'r Brifysgol i drigolion lleol am benwythnos derbyn myfyrwyr newydd	Trafodaeth gyda'r aelod o staff ac esboniad o'r gwasanaethau cyfieithu sydd ar gael yn fewnol
25/09/15	E-byst uniaith Saesneg i gyn-fyfyrwyr	Trafodaeth gyda'r aelod o staff ac esboniad o'r gwasanaethau cyfieithu sydd ar gael yn fewnol  Popeth yn ddwyieithog nawr
1/10/15	Arwyddion uniaith Saesneg/camgymeriadau yn y Gymraeg ar Gampws y Bae	Trafodaeth gyda'r adran ystadau a gysylltodd gyda'r cwmni trydydd parti  Wedi'i ddatrys
20/10/15	Cwyn am brospectws ôl-raddedig uniaith Saesneg	Trafodaeth gyda'r staff perthnasol  Gohiriwyd unrhyw ddatblygiadau tan ddyfodiad Safonau'r Gymraeg (ond fe fydd y cyhoeddiad nesaf yn nhymer yr Hydref nawr yn ddwyieithog)

11/11/15	Cyhoeddiad uniaith Saesneg yn y Llyfrgell am funud o dawelwch – Dydd y Cofio	Trafodaeth gyda'r aelod o staff ac esboniad o'r gwasanaethau cyfieithu sydd ar gael yn fewnol  Yn ddwyieithog o hyn ymlaen
25/11/15	E-bost uniaith Saesneg ynglŷn â'r broses o Adolygiad Datblygu Proffesiynol	Trafodaeth gyda'r aelod o staff ac esboniad o'r gwasanaethau cyfieithu sydd ar gael yn fewnol  Yn ddwyieithog o hyn ymlaen
27/11/15	Cwyn ynglŷn â bwydlenni uniaith Saesneg ar safleoedd arlwyo (Campws y Bae)	Trafodaeth gyda'r aelod o staff ac esboniad o'r gwasanaethau cyfieithu sydd ar gael yn fewnol
7/1/16	Yr adran Ystadau yn bwriadu llenwi lle gwag mewn llety cyfrwng Cymraeg i fyfyrwyr gan fyfyrwr di-gymraeg, ond roedd y myfyrwyr yn dadlau y byddai hyn yn rhwystr sylweddol iddyn nhw ac i'r person newydd	Trafodwyd y mater yn llawn mewn nifer o gyfarfodydd.  Cytunodd gwasanaethau llety myfyrwyr y byddent ond yn llenwi lle 'siaradwr Cymraeg' gyda rhywun di-gymraeg yn niffyg opsiynau eraill.
15/1/16	Cwyn ynglŷn â'r hyfforddiant ar-lein newydd uniaith Saesneg yn ymwneud â Diogelwch Data, Gwyngalchu arian a Llwgwobrwyo	Cyfieirwyd y mater i Swyddfa'r Comisiynydd oherwydd y diffyg eglurdeb yn y Cynllun Iaith presennol. Cynghorwyd bod angen i ni asesu a diffinio'r galw am yr hyfforddiant ein hunain.  Cynigwyd opsiynau amgen i'r sawl oedd yn cwyno (cyfarfod / fersiwn argraffedig)
15/2/16	Cynhadledd Feddygol Cymru gyfan - doedd dim ond modd cyflwyno crynodebau (ymchwil) yn Saesneg	Trafodaeth gyda'r aelod o staff am ddatrysiadau posibl
16/3/16	Cwyn am y driniaeth o'r Gymraeg o fewn proses adolygu mewnol, o ran gallu staff i gyflwyno cais yn y Gymraeg, ac yn fwy sylweddol, cadw swyddi'n 'Cymraeg yn hanfodol'	Cyfarfod gyda'r aelod o staff ac esbonio'r gofynion a datrysiadau posibl. Atgoffwyd bod angen ystyriaeth lawn o swyddi 'Cymraeg yn hanfodol' o fewn y broses.  Cytundeb y byddai hyn yn cael ei wneud o hynny ymlaen
22/3/16	ABW (system adnoddau dynol) yn anfon negeseuon awtomatig	Mae'r rhain bellach wedi'u cyfieithu ac yn cael eu hanfon yn ddwyieithog

	uniaith Saesneg allan	
5/4/16 and 26/5/16	Diffyg gwasanaeth Cymraeg ar switsfwrdd y Brifysgol dros gyfnod penodol	Troslogwyddwyd cyfrifoldeb am y switsfwrdd yn ystod y flwyddyn, a adawodd y switsfwrdd heb siaradwr Cymraeg. Bu wedyn cyfnod o ansefydlogrwydd, gyda staff yn cael eu penodi ond yn gadael yn fuan.  Siaradwr Cymraeg bellach yn y swydd
26/4/16	Cwyn ynglŷn â diffyg y Gymraeg mewn proses tendro, a ddim opsiwn i gyflwyno cais am dendr / cyfathrebu yn y Gymraeg	Cynhaliwyd nifer o gyfarfodydd gyda'r Adran Caffael a thrafodwyd nifer o ddatrysiadau posibl  Mae datblygiadau pellach yn cael eu trafod yng nghyd-destun Safonau'r Gymraeg
26/04/16	Gohebiaeth uniaith Saesneg yn cael ei hanfon i fyfyrwr Cymraeg a bwrdd arholi'r adran Gymraeg	Trafodaeth gyda'r aelod o staff am ddatrysiadau posibl
21/7/16	Gwybodaeth uniaith Saesneg ar stondin diwrnod agored y Coleg Gwyddorau Iechyd	Trafodaeth gyda'r aelod o staff ac esboniad o'r gwasanaethau cyfieithu sydd ar gael yn fewnol  Wedi'i ddatrys ar gyfer y diwrnod agored dilynol
28/7/16	E-byst uniaith Saesneg gan SALT a diffyg Cymraeg yng nghynhadledd SALT	Atgoffwyd SALT o'r gofynion